# Cydgysylltydd Prosiect Pecyn i Ymgeiswyr

Children North East

Because growing up can be hard














# Cynnwys


3 Yr Elusen

3 Cydgysylltydd Prosiect

8 Tâl, Buddion, Telerau ac Amodau

10 Sut i ymgeisio

# Yr Elusen

Ers 1891, mae Children North East wedi cefnogi babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i dyfu i fyny yn hapus ac yn iach. Gan weithio ar draws Gogledd-ddwyrain Lloegr a thu hwnt, maent yn darparu gwasanaethau hanfodol - yn aml gan gamu i mewn pan nad oes neb arall i droi ato. Mae eu hymrwymiad i hawliau plant, eiriol dros newid polisi, a gwrando ar leisiau'r rhai sy'n profi caledi yn sbarduno eu hymdrechion di-flino i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dyfodol gorau posibl.

Mae eu gwaith sy'n newid bywydau yn cynnwys cymorth o ran iechyd meddwl, ymyrraeth teuluol, Poverty Proofing®, mentrau cymunedol, niwrowahaniaeth a chymorth AAAA, a mwy – sydd oll yn anelu at greu cyfleoedd, gwaredu rhwystrau a helpu plant i ffynnu.

Mae methodoleg Poverty Proofing® Children North East yn anelu at fynd i'r afael â'r rhwystrau cudd sy'n lleihau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n profi tlodi.

Ers 2011, maent wedi gweithio ar draws ysgolion, gofal iechyd, lleoliadau celfyddydol a diwylliannol a sectorau eraill i helpu sefydliadau i fabwysiadu egwyddorion Poverty Proofing® ac i ysgogi newid ystyrlon ar lefel unigol a system. Mae eu dull yn canolbwyntio ar atebion sy'n seiliedig ar le a sicrhau llais i'r rhai sydd â phrofiad gwirioneddol, fel bod rhwystrau strwythurol cudd o ran cyrhaeddiad yn cael eu nodi a'u datrys.

Mae'r gwaith wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol, wedi'i nodi sawl gwaith fel arfer da yn Strategaeth Tlodi Plant y Llywodraeth, ac mae'n parhau i ddylanwadu ar sut mae sefydliadau'n deall ac yn ymateb i effaith tlodi ar fywydau plant.

# Cydgysylltydd Prosiect

## Trosolwg o'r Prosiect

Mae Children North East, Resolve Poverty a Llywodraeth Cymru yn partneru i gyflwyno rhag tair blynedd sydd wedi'i chynllunio i leihau cost y diwrnod ysgol a lleihau effaith tlodi ar ddysgwyr ledled Cymru. Yn rhedeg o Ebrill 2026 i Ebrill 2029, bydd y fenter yn cefnogi ysgolion, awdurdodau lleol, dysgwyr a theuluoedd i gael gwared ar rwystrau ariannol i addysg a sicrhau bod pob plentyn yn gallu ffynnu, beth bynnag fo'u hamgylchiadau economaidd. Mae'r gwaith hwn yn agwedd ganolog ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb mewn addysg a'i chenhadaeth ehangach i fynd i'r afael â thlodi plant.

Bydd y rhaglen yn helpu ysgolion, lleoliadau, cyrff llywodraethu a staff addysg i nodi'r rhwystrau o ran presenoldeb, ymgysylltu a chyrhaeddiad sy'n deillio o amgylchiadau economaidd. Bydd yn darparu cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dysgu proffesiynol ac arweiniad i helpu i gyflawni tegwch o ran y ddarpariaeth.

Bydd pwyslais allweddol ar gyfrannu at sgwrs genedlaethol am dlodi a'i effaith ar ddysgwyr, gan ddefnyddio llais y dysgwr i herio stigma a rhagfarn ddiarwybod. Bydd y rhaglen hefyd yn cefnogi ysgolion i gael gwared ar rwystrau sy'n gysylltiedig â'r bwlch cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi ac yn datblygu banc cyson o adnoddau a chanllawiau i hyrwyddo arferion nad ydynt yn creu stigma ar draws system addysg Cymru.

Ochr yn ochr â hyn, bydd yn cryfhau mentrau awdurdodau lleol sy'n anelu at fynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg ac yn helpu i gydlynu ymdrechion cenedlaethol. Bydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygu dysgu proffesiynol i'r gweithlu addysgu - o addysg gychwynnol athrawon i ymgeiswyr CPCP - gan sicrhau bod ystyriaethau o ran tegwch a thlodi wedi'u hymgorffori ymhob rhan o'r system.

## Diben y Swydd

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu'r prosiect hwn, gyda chefnogaeth ein Cydgysylltwyr Poverty Proofing presennol a rheolwr Tîm Poverty Proofing the School Day, sydd wedi'i leoli yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Gan weithio ochr yn ochr â Swyddog Polisi a Swyddog Gweithredol Cyfathrebu, bydd deiliad y swydd hon yn derbyn cefnogaeth gan Gydlynwyr eraill sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio gartref ond bydd disgwyl iddo/iddi deithio'n rheolaidd ledled Cymru, ac weithiau i Ogledd-ddwyrain Lloegr.

## Rheolaeth Linell

- Bydd deiliad y swydd hon yn cael ei reoli gan Reolwr Tîm Poverty Proofing the School Day.
- Bod yn rheolwr llinell ar staff sesiynol a gwirfoddolwyr yn ôl yr angen.

## Y Prif Gyfrifoldebau

Arwain y gwaith o ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol, dwyieithog a chynrychioliadol i ddysgwyr er mwyn casglu a dyrchafu lleisiau dysgwyr sy'n profi tlodi mewn addysg. .

- Recriwtio ac ymgysylltu â dysgwyr ledled Cymru
  Creu a darparu hyfforddiant sy'n grymuso pobl ifanc i gydlunio a chyd-gynhyrchu adnoddau a dulliau sy'n codi ymwybyddiaeth o dlodi, gan sicrhau bod safonau Llywodraeth Cymru o ran hygyrchedd yn cael eu bodloni.
- Cydlynu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd gymryd rhan fel y gallant ddatblygu sgiliau, magu hyder a dylanwadu ar benderfyniadau fel partneriaid gweithredol.
- Cymhwyso Dull Hawliau Plant ym mhob agwedd ar y gwaith.

**Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol a dwyieithog i addysgwyr.**

Darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r gweithlu addysg ac awdurdodau lleol i leihau costau dyddiau ysgol a dileu stigma tlodi.

- Recriwtio partneriaid ar draws system addysg Cymru a chydlynu rhwydwaith dwyieithog a chenedlaethol sy'n canolbwyntio ar leihau costau a stigma, gwella dealltwriaeth o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a sicrhau cefnogaeth iddynt.
- Creu cyfleoedd dysgu newydd i helpu addysgwyr i gael mynediad at adnoddau a dulliau sy'n lleihau stigma o ran tlodi ac sy'n lleihau costau ysgol i ddisgyblion.

**Cefnogi'r Uwch Swyddog Polisi i ymgysylltu â thimau lleol, rhanbarthol a thimau o fewn Llywodraeth Cymru**

- Cyfrannu at sesiynau cynllunio a gweithdai polisi yn ôl yr angen
- Rhannu mewnwelediadau a data o'r cam cyflwyno i'r cam mireinio polisi
- Cefnogi digwyddiadau Rhwydwaith Polisi a Chyngor Awdurdodau Lleol
- Parhau'n ymwybodol o ddatblygiadau polisi a mentrau newydd sy'n ymwneud â'r swydd hon.

**Gweithredu a rheoli gwaith monitro a gwerthuso**

- Gweithredu fframwaith monitro a gwerthuso y cytunwyd arno, ac olrhain cynnydd yn erbyn cerrig milltir a chanlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Casglu a dadansoddi data meintiol ac ansoddol ar gyfer gwelliant parhaus, gan ddarparu adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogi archwiliadau neu adolygiadau allanol os oes angen.

**Datblygu, rheoli a chynnal cysylltiadau gyda rhanddeiliaid**

- Meithrinh cysylltiadau newydd er mwyn ceisio sicrhau cydweithredu sy'n seiliedig ar atebion
- Cadw cofnodion cyfredol a chywir.

Hyrwyddo'r prosiect trwy siarad mewn cynadleddau, digwyddiadau a chyfrannu at gyhoeddiadau, gan gynnwys cydlynu cynhadledd genedlaethol ym Mlwyddyn 3.

## Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg a'r Saesneg - rydym yn barod i drafod hyn.
- Profiad o gyflawni prosiectau sy'n cynnwys babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Dealltwriaeth o gyfranogiad, ymchwil ac ymgynghori.
- Gwybodaeth am y materion y mae babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yn eu hwynebu a dealltwriaeth ohonynt.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Diogelu Cymru a chanllawiau ac arferion lleol.
- Dealltwriaeth o dlodi a'r effeithiau ar addysg, gydag ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol.
- Dealltwriaeth o gyd-destun addysgol Cymru
- Lefel uchel o lythrennedd TG gyda'r gallu i ddehongli data er mwyn gwneud penderfyniadau, a sgiliau lefel uchel o ran ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau.
- Sgiliau trefnu da a'r gallu i weithio ar draws nifer o dasgau a meysydd gwaith.
- Y gallu i weithio'n annibynnol mewn amgylchedd heriol a newidiol.
- Parch at werthoedd Children North East.
- Y gallu i weithio'n hyblyg er mwyn bodloni gofynion y swydd, gan gynnwys teithio dros nos yn rheolaidd.
- Mae angen trwydded yrru lawn a'r defnydd o gerbyd oherwydd y gofyn i deithio'n rheolaidd rhwng safleoedd ac ar gyfer gwaith cymunedol.

## Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau Dymunol

- Cymhwyster proffesiynol (hyd lefel gradd)
- Profiad o fod yn gyfrifol am gyflawni sawl prosiect llwyddiannus ar yr un pryd.

## Rhinweddau Personol

- Eiriolwr mawr dros gyfiawnder cymdeithasol, a'r prosiect, gan allu ei hyrwyddo trwy fod yn wyneb cyhoeddus i'r elusen a'i gwaith.
- Sgiliau trafod pobl hagorol i feithrin cysylltiadau ag ystod eang o bobl.
- Dysgwr rhagweithiol, cyflym a meddyliwr creadigol, hyblyg sy'n gallu gweithio'n annibynnol er mwyn sbarduno cwmpas y prosiect.

## Rolau a Chyfrifoldebau o ran Iechyd a Diogelwch

- Mae gan weithwyr/gweithwyr sesiynol ddyletswydd statudol i gymryd gofal rhesymol ohonynt eu hunain ac eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu hepgoriadau yn y gwaith.
- Rhaid i weithwyr/gweithwyr sesiynol hefyd gydymffurfio â threfniadau iechyd a diogelwch Children North East.

## Dyletswyddau Ychwanegol

Golyga natur gwaith Children North East fod y tasgau a'r cyfrifoldebau yn aml yn anrhagweladwy ac yn amrywiol. Felly, disgwylir i'r holl staff a'r gweithwyr sesiynol ymgymryd â gwaith nad yw'n cael ei gynnwys yn benodol yn y swydd-ddisgrifiad. Bydd y dyletswyddau ychwanegol hyn yn cyd-fynd â'r tasgau a'r dyletswyddau rheolaidd

# Tâl, Buddion, Telerau ac Amodau

## Cyflog

£29,024 i £31,856.64 (Pwyntiau ar y Raddfa 29-32). Nodwch fod penodiadau fel arfer yn cael eu gwneud gyda chynnig cyflog yn dechrau ar ben isaf y raddfa.

## Oriau

Wythnos waith arferol yw 37 awr. Oherwydd natur amrywiol y dyletswyddau; bydd angen bod yn barod i weithio'n hyblyg a gall gynnwys gwaith gyda'r nos. Gellir cymryd amser i ffwrdd yn ei lle yn amodol ar gytundeb y rheolwr llinell. Rydym yn falch iawn o fod yn gyflogwr hyblyg. Mae croeso i chi drafod unrhyw geisiadau o ran gweithio'n hyblyg yn y cyfweliad.

## Lleoliad Gwaith

Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio gartref ond bydd disgwyl iddo/iddi deithio'n rheolaidd ledled Cymru, ac weithiau i Ogledd-ddwyrain Lloegr.

## Hyd y Contract

Bydd y swydd hon am gyfnod penodol hyd 31 Mawrth 2029.

## Hawl i Wyliau

Mae gan weithwyr llawn amser hawl i 30 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau cenedlaethol -statudol a chyffredinol. Bydd hyn ar sail pro rata ar gyfer staff rhan-amser.

## Cyfnod Prawf

Bydd cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer y swydd hon.

## Lwfans Car

Mae lwfans defnyddiwr car achlysurol ar gael i ddeiliad y swydd hon.

## Cyfnod Rhybudd

Mae angen dau fis o rybudd gan naill ai'r cyflogai neu'r sefydliad (un mis yn ystod y cyfnod prawf).

## Buddion i Rieni

Mae cynllun tâl mamolaeth galwedigaethol ar gael i staff sydd â 12 mis o wasanaeth parhaus ac rydym yn cynnig 2 wythnos o absenoldeb partner/tadolaeth ar dâl llawn. Rydym hefyd yn cynnig cynllun tâl mabwysiadu galwedigaethol ar gyfer staff sydd â 12 mis o wasanaeth parhaus.

## Tâl Salwch

Mae Children North East yn gweithredu cynllun tâl salwch galwedigaethol,

## Cynllun Pensiwn

Mae yna gynllun pensiwn staff lle mae'r sefydliad hefyd yn cyfrannu 7.25% o gyflog aelodau staff.

## Gofal Iechyd

Mae gan bob aelod o staff sydd â chontract dros gyfnod o ddeng mis hawl i ymuno â chynllun gofal iechyd preifat y sefydliad.

## Cynllun Cynilo

Mae cynllun cynilo ar gael fel y gall staff ddewis arbed rhan o'u cyflog. Yna caiff hyn ei dalu'n ôl i staff ar gais.

## Pàs bws

Gellir talu cost Pàs bws blynyddol a ddefnyddir ar gyfer gwaith aelod o staff mewn 12 swm misol, wedi'i dynnu o'i gyflog.

# Sut i Ymgeisio

Ewch i adran "Our Vacancies" ein gwefan yn www.children-ne.org.uk/work-with-us/vacancies i ymgeisio. Nodwch na fyddwn yn derbyn CV.

Rydym yn croesawu ystod amrywiol o geisiadau ac yn frwd dros hyrwyddo cydraddoldeb, a gwerthfawrogi amrywiaeth. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bob person cymwys addas, yn enwedig ymgeiswyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan fod y grwpiau hyn ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithlu.

## Dyddiad cau

Dydd Llun 13 Gorffennaf 2026 (12pm).

## Dyddiad cyfweliad

Dydd Mercher 29 Gorffennaf a Dydd Iau 30 Gorffennaf 2026. Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd – lleoliad i'w gadarnhau.

## Person Cyswllt

Cysylltwch â Lorna Nicoll, Swyddog Arweiniol Gweithredol– Poverty Proofing o soes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y swydd drwy ffonio 0191 256 2444 neu anfon e-bost at lorna.nicoll@children-ne.org.uk